# Bywydau Digidol

Cynhadledd Flynyddol 2026 Anabledd Dysgu Cymru

Learning Disability Wales
Anabledd Dysgu Cymru

# Hysbysebu

Dydd Mercher 4 Tachwedd – Cyffordd Llandudno, Gogledd Cymru

Dydd Mercher 11 Tachwedd – Abertawe, De Cymru

# Am ein cynhadledd flynyddol



Nid yw cynhadledd flynyddol Anabledd Dysgu Cymru yn debyg i gynadleddau eraill. Mae'n sefyll allan o'r dorf fel enghraifft o gynhwysiant a hygyrchedd. Rydym yn ymdrechu i sicrhau bod ein digwyddiad yn gyfeillgar ac yn groesawgar i bawb, p'un a oes gennych anabledd dysgu ai peidio.

Mae llawer o'n siaradwyr ac arweinwyr gweithdai yn arbenigwyr yn ôl eu profiadau eu hunain o gael anabledd dysgu, rydym yn credu bod pawb yn elwa o gymryd y dull hwn. Bob blwyddyn mae'r gynhadledd yn dwyn ynghyd bobl ag anabledd dysgu a gweithwyr proffesiynol yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol, rhai sy'n gwneud penderfyniadau allweddol mewn awdurdodau lleol, darparwyr cymorth, mudiadau gwirfoddol, a chomisiynwyr.

Bydd Digital Lives yn archwilio sut y gall offer digidol o apiau bob dydd AI rymuso pobl ag anabledd dysgu i gael mwy o ddewis, llais a rheolaeth yn eu bywydau. Bydd y gynhadledd yn tynnu sylw at yr heriau, megis allgáu digidol a hygyrchedd, a'r cyfleoedd ar gyfer cyfathrebu, cymorth personol, a mwy o annibyniaeth. **Gallwch fod yn rhan o'r digwyddiad unigryw hwn.**

# Sut gallwch chi elwa







Mae cefnogi ein cynhadledd drwy hysbysebu yn rhoi cyfle i chi gyrraedd a dylanwadu ar bobl a sefydliadau yn y gymuned anabledd dysgu yng Nghymru, gall hefyd eich helpu i:

- Cynyddu gwelededd eich sefydliad
- Targedu sefydliadau yn y maes hwn mewn ffordd gost-effeithiol
- Dod o hyd i gleientiaid, partneriaid, a chwsmeriaid newydd
- Cynyddu eich cyfran o'r farchnad di-elw
- Meithrin perthynas â mudiadau eraill yn y sector gwirfoddol
- Dangos eich ymrwymiad i sector di-elw cryf

# Cipolwg ar opsiynau hysbysebu

Bydd pob cynrychiolydd yn derbyn pecyn cynhadledd gan gynnwys llawlyfr a fydd yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt i wybod am y deuddydd. Gallwch hyrwyddo eich sefydliad drwy hysbysebu mewn nifer o ffyrdd:

| | Hysbyseb tudalen lawn yn y llawlyfr | Hysbyseb hanner tudalen yn y llawlyfr | Nwyddau mewn pecyn cynrychiolwyr |
|---|---|---|---|
| Eich logo ar ein gwefan | ✓ | ✓ | ✓ |
| Eich logo ar ddeunyddiau cyhoeddusrwydd | ✓ | ✓ | ✓ |
| Pris | £250 + TAW | £150 + TAW | Ar gais |

# Hysbysebu yn y llawlyfr

## £180- £300 y diwrnod

Trwy gymryd hysbyseb yn llawlyfr y gynhadledd cewch

- Hysbyseb lliw A4 tudalen llawn neu hanner tudalen yn llawlyfr y gynhadledd
- Eich logo yn cael ei arddangos ar dudalennau'r gynhadledd ar wefan Anabledd Dysgu Cymru gyda hyperddolen i wefan y cwmni

Rhowch gyfle i'n holl gynrychiolwyr ddysgu mwy am eich sefydliad am £150+TAW am hysbyseb hanner tudalen neu £250+TAW am hysbyseb tudalen lawn.

# Pecyn deunyddiau cynrychiolwyr

Mae'r prisiau'n amrywio ac maent ar gael ar gais.

Efallai eich bod yn chwilio am opsiynau symlach i hyrwyddo eich sefydliad drwy roi rhywbeth i'n cynrychiolwyr i'w hatgoffa ohonoch chi.

Gallwn ddod o hyd i ystod o nwyddau a fydd yn cael eu cynnwys ym mhob pecyn cynrychiolwyr.  Ymysg yr eitemau sydd ar gael, mae:

- Peniau
- Bandiau arddwrn
- Ffyn USB
- Troellwyr aflonydd
- Llawer mwy, dim ond gofyn!

# Cysylltu â ni

I drefnu eich hysbysebion, cysylltwch â Lucy O'Leary ar:

Ffôn: 029 2068 1163

Ebost: lucy.oleary@ldw.org.uk

Anabledd Dysgu Cymru
41 Cilgant Lambourne
Parc Busnes Caerdydd
Llanisien
Caerdydd
CF14 5GG

www.ldw.org.uk